**CYNGOR SIR Y FFLINT**
**6 RHAGFYR 2023**

Cofnodion cyfarfod hybrid Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd ddydd Mercher, 6 Rhagfyr 2023.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Dennis Hutchinson (Is-gadeirydd yn y Gadair)**

**Y Cynghorwyr:** Mike Allport, Bernie Attridge, Marion Bateman, Sean Bibby, Chris Bithell, Gillian Brockley, Helen Brown, Mel Buckley, Teresa Carberry, Tina Claydon, David Coggins Cogan, Geoff Collett, Bill Crease, Paul Cunningham, Rob Davies, Adele Davies-Cooke; Chris Dolphin, Rosetta Dolphin, Mared Eastwood, David Evans, Chrissy Gee, Ian Hodge, Andy Hughes, Dave Hughes,
Alasdair Ibbotson, Paul Johnson, Christine Jones, Richard Jones, Simon Jones, Richard Lloyd, Dave Mackie, Gina Maddison, Roz Mansell, Allan Marshall, Hilary McGuill, Ryan McKeown, Debbie Owen, Ted Palmer, Andrew Parkhurst, Mike Peers, Michelle Perfect, Vicky Perfect, Carolyn Preece, David Richardson, Dan Rose, Kevin Rush, Dale Selvester, Jason Shallcross, Sam Swash, Linda Thew, Ant Turton, Roy Wakelam ac Arnold Woolley

**YMDDIHEURIADAU:**

Y Cynghorwyr Glyn Banks, Pam Banks, Steve Copple, Ron Davies, Carol Ellis, Dave Healey, Gladys Healey, Ray Hughes, Billy Mullin, Ian Roberts, Linda Thomas,
Antony Wren a'r Rheolwr Archwilio Mewnol, Perfformiad a Risg.

**HEFYD YN BRESENNOL:**

Y Prif Weithredwr, Prif Swyddog (Llywodraethu), Prif Swyddog (Tai a Chymunedau), Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi),
Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol), Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth),
Rheolwr Cyllid Corfforaethol, Rheolwr Cyllid Strategol,
Rheolwr Corfforaethol y Rhaglen Gyfalaf ac Asedau,
Uwch Reolwr Cynllunio a Darpariaeth Lleoedd mewn Ysgolion,
Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a'r
Tad P. Wheeler ar gyfer y weddi.

Croesawodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) Julia Hughes a oedd yn bresennol i arsylwi'r cyfarfod fel aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau.

Dywedodd y Prif Swyddog wrth yr Aelodau fod y Cynghorwyr Dave a Gladys Healey yn angladd eu merch y diwrnod hwnnw. Eglurodd hefyd fod gwraig y Cynghorydd Ron Davies wedi marw. Gofynnodd y Cadeirydd i gydymdeimlad gael ei anfon ar ran y Cyngor.

Awgrymodd y Cynghorydd Attridge i gerdyn gwellhad buan gael ei anfon at yr Arweinydd, y Cynghorydd Ian Roberts, ar ran y Cyngor.

## 49. **DATGAN CYSYLLTIAD**

Datganodd yr Is-Gadeirydd, y Cynghorydd Hutchinson, gysylltiad personol ag Eitem 7 ar y Rhaglen fel llywodraethwr ysgol yn Ysgol Gynradd Drury.

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiadau eraill.

## 50. **COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 26 Medi 2023 a 24 Hydref 2023.

26 Medi 2023

Cywirdeb

O ran Datgan Cysylltiadau, dywedodd y Cynghorydd Peers ei fod wedi datgan cysylltiad personol ag eitem 10 ar y Rhaglen, Rhybudd o Gynnig mewn perthynas â landlordiaid. Cytunwyd i addasu’r cofnodion yn unol â hynny.

24 Hydref 2023

Cywirdeb

Cyfeiriodd y Cynghorydd Ibbotson at eitem 43 a gofynnodd am ddiweddariad ar ei gais i gael ymateb ysgrifenedig. Dywedodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) y byddai'n rhannu ymateb â’r Aelodau yn dweud nad oedd angen adroddiad o'r fath gan roi’r rhesymau dros hynny.

Cynigiodd y Cynghorydd Attridge y cofnodion fel cofnod cywir ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Bibby, a chymeradwyodd y Pwyllgor hynny drwy bleidleisio.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 26 Medi, gyda’r newid, a 24 Hydref 2023 fel cofnod cywir.

## 51. **CYHOEDDIADAU’R CADEIRYDD**

Roedd yr holl Aelodau wedi derbyn manylion yr ymrwymiadau roedd y Cadeirydd wedi ymgymryd â nhw ers y cyfarfod diwethaf. Soniodd yr Is-gadeirydd am yr ymweliadau ag ysgolion yr oedd wedi eu gwneud gan ddweud ei fod o a'i wraig wedi'u mwynhau.

**52. DEISEBAU**

Dywedodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) nad oedd dim wedi dod i law.

**53. STRATEGAETH GYFALAF YN CYNNWYS DANGOSYDDION DARBODUS 2024/25–2026/27**

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol yr adroddiad a oedd yn cyflwyno'r Strategaeth Gyfalaf yn cynnwys Dangosyddion Darbodus 2024/25–2026/27 i'w chymeradwyo.

Roedd yr adroddiad yn amlygu'r modd yr oedd y Rhaglen Gyfalaf yn cael ei datblygu a'i hariannu, yr effaith bosib' ar Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor a'i pherthynas â Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor. Ychydig iawn o newid oedd i'r Strategaeth Gyfalaf a gyflwynwyd y llynedd ar wahân i ddiweddariadau i Ddangosyddion Darbodus y Cyngor ar gyfer 2024/25–2026/27.

Roedd Tabl 1 yn rhoi gwybodaeth am wariant arfaethedig y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer y tair blynedd nesaf, Tabl 2 yn nodi sut y byddai'r gwariant hwn yn cael ei ariannu, a Thabl 8 yn rhoi trosolwg o sut roedd costau ariannu yn cymharu â'r gyllideb.

Cafodd yr argymhellion yn yr adroddiad eu cynnig gan y Cynghorydd Johnson a'u heilio gan y Cynghorydd Bibby.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cymeradwyo'r Strategaeth Gyfalaf; a

(b) Cymeradwyo'r canlynol:-

- Y Dangosyddion Darbodus ar gyfer 2024/25–2026/27 fel y manylir yn Nhablau 1, a 4-8 yn y Strategaeth Gyfalaf.
- Awdurdod dirprwyedig i'r Rheolwr Cyllid Corfforaethol i wneud symudiadau rhwng y terfynau y cytunwyd arnynt ar wahân o fewn y terfyn a awdurdodwyd ar gyfer dyled allanol a'r terfyn gweithredol ar gyfer dyled allanol (Tabl 6 y Strategaeth Gyfalaf).

**54. RHAGLEN GYFALAF 2024/25–2026/27**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad gan egluro bod y Rhaglen Gyfalaf yn cwmpasu buddsoddiadau'r Cyngor ynghlwm ag asedau a hefyd yn ystyried y sefyllfa o ran y gyllideb refeniw.

Yna, rhoddodd y Rheolwr Cyllid Strategol gyflwyniad a oedd yn cynnwys gwybodaeth fanwl ar y sleidiau canlynol:-

- Rhaglen Gyfalaf 2024/25–2026/27
  - Statudol/Rheoleiddiol – dyraniadau ar gyfer gwaith rheoleiddiol a statudol.

  - Asedau wedi'u Cadw – dyraniadau i ariannu gwaith angenrheidiol i isadeiledd er mwyn sicrhau parhad gwasanaeth a busnes.
  - Buddsoddi – dyraniadau i ariannu'r gwaith angenrheidiol i ailstrwythuro gwasanaethau er mwyn cyflawni'r arbedion effeithlonrwydd sydd wedi'u nodi yng nghynlluniau busnes portffolios a buddsoddi mewn gwasanaethau, fel y nodir yng Nghynllun y Cyngor.

- Rhaglen Gyfredol 2023/24–2025/26

- Cyllid Disgwyliedig 2024/25–2026/27

- Statudol/Rheoleiddiol – Dyraniadau Arfaethedig

  - Asedau wedi'u Cadw – Dyraniadau Arfaethedig (1)
  - Asedau wedi'u Cadw – Dyraniadau Arfaethedig (2)
  - Adran Fuddsoddi – Dyraniadau Arfaethedig (1)
  - Adran Fuddsoddi – Dyraniadau Arfaethedig (2)

- Crynodeb Rhaglen wedi ei Hariannu'n Gyffredinol

- Cynlluniau sy'n Cael eu Hariannu'n Benodol

- Crynodeb Rhaglen Gyfalaf

- Cynlluniau Posib' ar gyfer y Dyfodol

Mewn ymateb i gwestiynau gan y Cynghorydd Richard Jones ar yr adran gwaith adeiladu ysgolion ac asedau a gedwir ar dudalen 48, rhoddodd y Rheolwr Cyllid Strategol eglurhad ar y dadansoddiad o'r ffigwr o £500,000 yn yr Adran Statudol. Yna, rhoddodd Rheolwr Corfforaethol y Rhaglen Gyfalaf ac Asedau wybodaeth am y Rhaglen Atgyweirio a Chynnal a Chadw Ysgolion a'r Rhaglen Flaenoriaeth flynyddol a grëwyd o'r Arolygon Cyflwr a wnaed mewn ysgolion. Eglurwyd bod rhestr aros o atgyweiriadau i ysgolion gwerth tua £15 miliwn a bod yr £1 miliwn yn cael ei ddefnyddio i ariannu'r blaenoriaethau a oedd wedi'u pennu drwy'r tîm syrfewyr adeiladau ac arolygon cyflwr.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Peers at yr adolygiad o ystadau diwydiannol a gofynnodd pam oedd angen dymchwel yr unedau gwag. Cynigiodd welliant y dylai'r unedau ar ystadau diwydiannol gael eu hadolygu gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol i ddod i ddeall beth oedd ynghlwm â hynny.

Eglurodd y Rheolwr Corfforaethol fod yr unedau ym Maes Glas ac y tu hwnt i gael eu hatgyweirio'n fforddiadwy; ac roedd swm o £200,000 wedi'i gynnwys yn y Rhaglen Gyfalaf i wneud y gwaith.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod yr ystâd benodol y cyfeirid ati y tu hwnt i'w hatgyweirio ac y gallai unedau cychwynnol gael eu gosod yn lle'r unedau presennol ar gyfer busnesau bach oedd eu hangen. Byddai hyn hefyd yn mynd i'r afael â Threthi Busnes Unedau Gwag a oedd yn cael eu codi ar y Cyngor.

Croesawai'r Cynghorydd Richard Jones yr awgrym o adroddiad i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol, ac yntau'n Gadeirydd.

Roedd y Cynghorydd Rosetta Dolphin yn croesawu dymchwel y tair uned ym Maes Glas a oedd, yn ei barn hi, yn risg i iechyd a diogelwch.

Mewn ymateb i gwestiwn am Gymunedau Dysgu Cynaliadwy gan y Cynghorydd Crease, roedd y Rheolwr Corfforaethol ar ddeall bod Bandiau B ac C Cymunedau Cynaliadwy bellach wedi'u diddymu ond y gallai'r Cyngor ddwyn unrhyw brosiect y dymunai ymlaen fel rhan o'i raglen fuddsoddi. Cadarnhaodd yr Uwch Reolwr (Cynllunio a Darpariaeth Lleoedd mewn Ysgolion) fod nifer o brosiectau oedd yn y rhaglen Band B ond heb eu datblygu eto oedd yn cynnwys darpariaeth addysg yn ardal Saltney a Brychdyn. Roedd adolygiad yn cael ei gynnal ar yr hyn a allai gael ei ystyried yng ngham nesaf y buddsoddiad, gan edrych ar unrhyw brosiect nad oedd wedi'i gynnwys yn y rownd nesaf. Dywedwyd bod proses ymgysylltu gynnar anffurfiol wedi'i chynnal yng nghymunedau Saltney a Brychdyn, a oedd yn wahanol i ymgynghoriad. Roedd datganiad i'r wasg wedi'i ddarparu i nodi'r prif themâu o'r broses ymgysylltu gynnar, gyda manylion llawn i gael eu darparu mewn adroddiad yn y dyfodol i'r Cabinet a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn y Flwyddyn Newydd.

Cynigiwyd y gwelliant gan y Cynghorydd Peers ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Richard Jones a chafodd ei gymeradwyo pan gynhaliwyd pleidlais ar y mater.

Cafodd yr argymhellion yn yr adroddiad eu cynnig gan y Cynghorydd Johnson a'u heilio gan y Cynghorydd Bibby.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cymeradwyo'r dyraniadau a'r cynlluniau yn Nhabl 3 (paragraff 1.09) ar gyfer yr adrannau Statudol/Rheoleiddiol ac Asedau a Gedwir yn Rhaglen Gyfalaf Cronfa'r Cyngor 2024/25–2026/27;

(b) Cymeradwyo'r cynlluniau sydd yn Nhabl 4 ar gyfer adran Fuddsoddi Rhaglen Gyfalaf Cronfa'r Cyngor 2024/25–2026/27;

(c) Nodi bod y diffyg o ran ariannu'r cynlluniau yn 2024/25 a 2025/26 yn Nhabl 5 ar y pwynt hwn yn y broses gymeradwyo yn caniatáu hyblygrwydd. Bydd opsiynau, gan gynnwys cyfuniad o dderbyniadau cyfalaf yn y dyfodol, grantiau eraill (os ydynt ar gael), benthyca darbodus neu ail-drefnu cynlluniau yn rhai fesul cam, yn cael eu hystyried yn ystod 2024/25 ac yn cael eu cynnwys mewn adroddiadau ar y Rhaglen Gyfalaf yn y dyfodol;

(d) Cymeradwyo'r cynlluniau sydd yn Nhabl 6 ar gyfer yr adran sydd wedi'i hariannu'n benodol yn Rhaglen Gyfalaf Cronfa'r Cyngor a fydd yn cael ei hariannu'n rhannol trwy fenthyca; a

(e) Bod adroddiad ar unedau diwydiannol yn cael ei gyflwyno i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol i'w ystyried.

## 55. RHYBUDD O GYNNIG

Roedd y Rhybudd o Gynnig canlynol wedi'i gyflwyno:

"Israel-Gaza" – wedi'i gynnig gan y Cynghorydd Parkhurst, a'i eilio gan y Cynghorydd Swash

"Mae'r Cyngor yn condemnio ymosodiadau terfysgaeth ofnadwy Hamas yn Israel ar 7 Hydref.

Mae'r Cyngor wedi'i arswydo gan y delweddau o drais yn ystod yr wythnosau a'r dyddiadau ar ôl yr ymosodiadau hyn, yn enwedig y sefyllfa ddyngarol ddifrifol yn Gaza lle mae dros 10,000 o Balesteiniaid wedi'u lladd a Hamas yn dal yn cadw gwystlon.

Mae'r Cyngor yn cefnogi hawl Israel i amddiffyn ei dinasyddion, yn unol â'r gyfraith ryngwladol, sy'n golygu targedu terfysgwyr, nid sifiliaid, a sicrhau nad yw Palesteiniaid diniwed yn talu'r pris am weithredoedd Hamas.

Mae'r Cyngor yn mynegi ei bryder ynghylch methiant Llywodraeth y DU i geisio sicrhau bod llywodraeth Israel a'i byddin yn cadw at ofynion cyfraith ryngwladol.

**Mae'r Cyngor yn credu:**

Na fydd datrysiad milwrol ar ei ben ei hun yn arwain at heddwch ar gyfer Israeliaid na Phalesteiniaid.

Bod gwerthoedd cydraddoldeb, democratiaeth, hawliau dynol a rheolaeth y gyfraith ryngwladol yn hollbwysig.

Bod yn rhaid i'r holl rai sy'n brwydro ymddwyn yn unol â rheolau rhyfel a'r gyfraith ddyngarol ryngwladol.

Y dylid rhyddhau gweddill y rhai sy'n cael eu dal yn wystlon gan Hamas.

Y dylid adfer cyflenwadau hanfodol o ddŵr, bwyd, meddyginiaeth a thrydan yn Gaza, ac y dylid hwyluso cymorth i Gaza.

Nad yw hi'n iawn beio Iddewon am weithredoedd llywodraeth Israel na Phalesteiniaid am weithredoedd Hamas.

Bod y Cyngor yn penderfynu gofyn i Lywodraeth y DU i alw am gadoediad ar unwaith er mwyn:

a. Hwyluso danfon cymorth dyngarol i Gaza

b. Rhoi cyfle i allu sicrhau bod y gwystlon sy'n weddill yn cael eu rhyddhau

c. Caniatáu cyfnod dwys o ddiplomyddiaeth i ddod i ddatrysiad gwleidyddol, i geisio sicrhau heddwch parhaol.

Mae'r Cyngor, gyda phryder mawr iawn, yn nodi effaith ddifrifol yr argyfwng hwn yn y DU, gyda chymunedau Iddewig, Mwslim a Phalesteinaidd oll yn

ofni ac yn galaru, ac yn condemnio'r cynnydd mewn gwrth-semitiaeth ac Islamoffobia ers 7 Hydref.

Mae'r Cyngor yn galw ar drigolion Sir y Fflint, arweinwyr cymunedol a ffigyrau cyhoeddus i weithredu'n gyfrifol a gweithio i ddod â chymunedau ynghyd yn ystod y cyfnod sensitif hwn.

Mae'r Cyngor yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu cynllun Cartrefi i Balesteiniaid yn barod ar gyfer ac i hwyluso darparu llety dros dro i ffoaduriaid y gwrthdaro."

Wrth siarad am y Rhybudd o Gynnig, gwnaeth y Cynghorydd Pankhurst sylwadau am yr erchyllterau roedd Hamas wedi'u cyflawni, effaith frawychus bombardio milwrol Israel yn dilyn hynny a nifer y bobl ddiniwed oedd wedi'u lladd, eu hanafu neu eu dadleoli yn Gaza. Soniodd am niferoedd y plant, merched, meddygon, swyddogion y Cenhedloedd Unedig, newyddiadurwyr, ynghyd â chenedlaethau o deuluoedd a oedd wedi'u lladd. Roedd hanner isadeiledd Gaza wedi'i ddinistrio. Fel awdurdod lleol, roedd dyletswydd ar Sir y Fflint i gynnal rhyngberthynas dda o fewn cymunedau fel bod ein holl drigolion yn gallu byw heb ofn neu wahaniaethu. Fel sir sy'n noddfa, roedd dyletswydd ar Sir y Fflint i agor ei chalon a'i chartrefi pan fyddai gweddill trigolion Gaza a oedd eisiau gadael yn gallu gwneud hynny. Cymeradwyodd y Rhybudd o Gynnig i'r Cyngor gan ofyn i'r Aelodau ei gefnogi.

Cynigiodd y Cynghorydd Richard Jones welliant i'r Rhybudd o Gynnig, sef bod y canlynol yn cael ei gynnwys:-

d. Bod holl gostau'r Cynllun Cartrefi i Balesteiniaid yn cael eu darparu gan Lywodraeth Cymru'n ddiderfyn tra bo'r costau'n parhau ac na ddylai'r Cynllun hwn effeithio ar ddarpariaeth adnoddau tai sydd ar gael i drigolion lleol yn Sir y Fflint mewn modd negyddol.

Eiliodd y Cynghorydd Attridge hyn.

Yn dilyn cwestiwn ar fater o drefn, eiliodd y Cynghorydd Swash Rybudd o Gynnig y Cynghorydd Parkhurst yn ffurfiol.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Pankhurst ei fod yn derbyn y diwygiad. Ni wnaeth y Cynghorydd Swash, fel yr eilydd, dderbyn y diwygiad.

Gofynnodd y Cynghorydd Attridge am bleidlais wedi'i chofnodi ar y diwygiad ac fe'i cefnogwyd gan y 10 Aelod angenrheidiol.

**Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid y diwygiad:**
Dennis Hutchinson, Mike Allport, Bernie Attridge, Marion Bateman, Sean Bibby, Chris Bithell, Gillian Brockley, Helen Brown, Teresa Carberry, Bill Crease, Rob Davies, Adele Davies Cooke, Chris Dolphin, Rosetta Dolphin, Mared Eastwood, Dave Evans, Chrissy Gee, Ian Hodge, Andy Hughes, Dave Hughes, Christine Jones, Richard Jones, Simon Jones, Dave Mackie, Roz Mansell, Allan Marshall, Hilary McGuill, Debbie Owen, Ted Palmer, Andrew Parkhurst, Mike Peers, David Richardson, Jason Shallcross, Linda Thew, Ant Turton, Roy Wakelam, Arnold Woolley.

**Pleidleisiodd y Cynghorwyr canlynol yn erbyn y diwygiad:**
Alasdair Ibbotson, Dan Rose, Sam Swash.

**Ymatalodd yr Aelodau canlynol:**
Mel Buckley, Tina Claydon, Geoff Collett, Paul Cunningham, Paul Johnson, Richard Lloyd, Gina Maddison, Ryan McKeown, Michelle Perfect, Vicky Perfect, Carolyn Preece, Kevin Rush.

Pleidleisiodd 27 Aelod o blaid y diwygiad, 3 yn erbyn ac fe wnaeth 12 ymatal.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Rhybudd o Gynnig gyda'r ychwanegiad yn cael ei dderbyn a'i gefnogi.

## 56. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Wrth gyflwyno Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, eglurodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) fod y cylch gorchwyl ar gyfer y pwyllgor hwn wedi'i osod yn rhannol gan ddeddfwriaeth ac yn rhannol gan ganllawiau a gyhoeddwyd gan Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA).

Roedd yr adroddiad yn amlygu pob rhan benodol o'r cylch gorchwyl a sut yr oedd y pwyllgor wedi cyflawni hynny yn ystod y cyfnod hwnnw, a chymeradwywyd yr adroddiad yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor.

Cynigiodd y Cynghorydd Attridge yr argymhelliad yn yr adroddiad ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd Bibby.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

## 57. PENODI LLEYGWR I'R PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) yr adroddiad ac eglurodd fod cyfnod un o'r aelodau lleyg ar y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn dod i ben ym mis Rhagfyr 2023, ar ôl gwasanaethu am bedair blynedd.

Roedd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gofyn bod y Cyngor yn sicrhau bod un rhan o dair o'r Pwyllgor yn aelodau lleyg.

Roedd yr aelod lleyg, Mr Allan Rainford, yn fodlon gwasanaethu eto os oedd y Cyngor yn barod i'w ailbenodi.

Cynigiodd y Cynghorydd Attridge fod Mr Rainford yn cael ei ailbenodi fel aelod o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Palmer.

Mewn ymateb i gwestiwn am hyfforddiant, cyfeiriodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) at y rhaglen ddatblygu ar gyfer yr holl aelodau a dywedodd fod y cyrsiau hynny hefyd ar gael i aelodau lleyg.

Dywedodd y Prif Swyddog fod Pwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd yn ystyried y rhaglen ddatblygu yn rheolaidd fel rhan o'i waith a dywedodd y gallai hyfforddiant gorfodol i Gadeiryddion gael ei gynnwys i'w ystyried mewn cyfarfod yn y dyfodol.

O bleidleisio ar y mater, cymeradwywyd yr argymhelliad yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Cyngor yn ailbenodi'r aelod lleyg am bedair blynedd arall tan 31 Rhagfyr 2027.

## 58. NEWID AMSER CYFARFOD – Y PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cyflwynodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad yn nodi'r rheswm am symud cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio oedd i ddod i gychwyn am 2.00pm. Roedd y rhesymau am y newid amser awgrymedig i'w gweld yn yr adroddiad.

Cynigiodd y Cynghorydd Lloyd yr argymhelliad ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd Attridge.

Mewn ymateb i gwestiwn, cytunwyd y byddai ymweliadau safle Cynllunio'n cael eu cynnwys yng nghalendr cyfarfodydd yr Aelodau.

Ar ôl pleidlais, cafodd yr argymhelliad ei dderbyn.

**PENDERFYNWYD:**

Newid amser cychwyn cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio i 2pm o gyfarfod mis Rhagfyr 2023 tan ddiwedd yr Amserlen Gyfarfodydd gyfredol.

## 59. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD

Dywedodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) nad oedd dim wedi dod i law erbyn y dyddiad cau.

## 60. CWESTIYNAU

Dywedodd y Cadeirydd bod cwestiwn wedi dod i law gan y Cynghorydd Parkhurst.

**Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus mewn perthynas â Gerddi Coffa'r Wyddgrug**

A oes modd i Aelod Cabinet Cynllunio, Iechyd y Cyhoedd a Gwarchod y Cyhoedd egluro pam ei fod wedi rhoi gwybod i'r Cabinet ar 17.10.23 Fod Cyngor Tref yr Wyddgrug wedi gwneud cais i wahardd cŵn o Erddi Coffa'r Wyddgrug, a pham y dywedwyd yr un peth wrth Bwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Economi a'r Amgylchedd ar 12.9.23 pan oedd Cyngor Tref yr Wyddgrug, mewn gwirionedd, wedi gofyn am ddiwygio'r Gorchymyn i nodi y dylid "cadw cŵn ar dennyn ar bob adeg", ac o ystyried y wybodaeth anghywir yma i'r Pwyllgor Craffu a'r Cabinet, a fyddai rŵan yn cytuno y dylid ailystyried y penderfyniad i wahardd cŵn o'r Gerddi hyn?

**Ymatebodd y Cynghorydd Chris Bithell i'r Cwestiwn fel hyn:-**

"Yn y ddau gyfarfod y cyfeirir atynt, sef Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yr Amgylchedd a'r Economi ar 12 Medi 2023 a'r cyfarfod Cabinet ar 17 Hydref 2023, cyflwynwyd adroddiad ar Adnewyddu Gorchmynion Mannau Cyhoeddus gan y Prif Swyddog Cynllunio, Iechyd y Cyhoedd a Gwarchod y Cyhoedd. Yn ôl y drefn arferol, yr Aelod Cabinet at gyfer y portffolio hwnnw sydd fel arfer yn cyflwyno'r adroddiad ac wrth wneud hynny bydd yn dyfynnu ac yn cyfeirio at agweddau a manylion yn yr adroddiad, a dyna wnes i.

Roedd agweddau o'r adroddiad ac, yn wir, y modd roedd yr ymgynghoriad wedi'i wneud wedi bod yn destun ymholiadau, sylwadau, cwynion a honiadau. Roedd y rhain i gyd yn cael eu hymchwilio'n drylwyr ar hyn o bryd yn rhan o weithdrefn Gwyno ffurfiol y Cyngor. O ystyried hynny, rwy'n meddwl y byddai'n annoeth ac yn amhriodol gwneud rhagor o sylwadau nes mae'r weithdrefn honno wedi'i chwblhau."

Gofynnodd y Cynghorydd Pankhurst pam roedd y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu wedi clywed gwybodaeth gamarweiniol ac os oedd camgymeriad wedi'i wneud, pam nad oedd hynny wedi'i gydnabod. Roedd y mater hwn yn achosi pryder i bobl oedrannus. Pan ofynnodd Cyngor Tref yr Wyddgrug i gŵn gael eu cadw ar dennyn, pam oedd pwyllgorau'n clywed bod y Cyngor Tref eisiau i gŵn gael eu gwahardd. Cyfeiriodd at sylwadau a wnaed bod gwaith ymgynghori wedi bod â Chomisiynydd yr Heddlu a Throsedd, ond ar ôl cysylltu â Chomisiynydd yr Heddlu a Throsedd, dywedodd nad oedd neb wedi ymgynghori ag o. Gofynnodd hefyd pam roedd yr Asesiad Cydraddoldeb o 2023 yn edrych fel un wedi'i dorri a'i ludo, gyda gwallau teipio o 2020, a dywedodd y byddai'n gwerthfawrogi ymateb gan y Cynghorydd Bithell.

Ceisiodd y Cynghorydd Attridge eglurhad gan y Prif Swyddog (Llywodraethu) gan ofyn, os oedd y Cyngor yn gweithio ar weithdrefn gwyno ffurfiol ar hyn o bryd, a fyddai'n annoeth trafod rhagor am hyn nes byddai canlyniad y gŵyn ffurfiol honno'n hysbys. Ei bryder oedd bod hwn yn fater difrifol os oedd y Cabinet wedi camarwain Pwyllgor Craffu ac aelodau'r cyhoedd.

Yn gyntaf, atgoffodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) yr Aelodau ynghylch y broses ar gyfer cwestiynau, a bod gan holwr y cwestiwn hawl i ofyn un cwestiwn ategol, un ai'n codi'n uniongyrchol o'r cwestiwn gwreiddiol neu o'r ateb a ddarparwyd. Roedd y Cynghorydd Bithell wedi cadarnhau yn ei ateb i'r cwestiwn

gwreiddiol fod cwynion wedi'u gwneud a dyna pam roedd yn credu bod y Cynghorydd Pankhurst wedi codi'r mater hwn. Roedd yn deall pam roedd y Cynghorydd Attridge wedi gofyn y cwestiwn a dywedodd nad oedd yn briodol ei drafod. Roedd yr un cwynwyr a oedd wedi cysylltu â'r Cynghorydd Pankhurst hefyd wedi gwneud cwynion ffurfiol drwy weithdrefn Gwyno Gorfforaethol y Cyngor ac wedi gwneud nifer o honiadau, ac roedd ymchwiliad i'r rheiny ar fynd ar hyn o bryd. Nes roedd yn hysbys a oeddent yn ffeithiol gywir, nid oedd yn ddoeth ateb y cwestiwn ar hyn o bryd. Fe wnaeth y Cyngor, wrth weithredu drwy ei Gabinet gymeradwyo Gorchmynion Gwarchod Mannau Cyhoeddus yn ei gyfarfod ym mis Medi ac roedd y Gorchmynion hynny mewn grym ac yn Orchmynion a wnaed yn ddilys nes byddai Llys ag awdurdodaeth gymwys yn eu dirymu. Gallai'r Cyngor, pe bai'n dymuno, edrych eto i weld a ddylai'r Gorchmynion hynny fod wedi'u gwneud neu a ddylid eu newid a byddai hwnnw'n benderfyniad i'w wneud pan fyddai'r cwynion wedi'u hystyried a'r holl Gynghorwyr wedi cael gwybod am y canlyniad. Cadarnhaodd fod y Cynghorydd Pankhurst wedi cael ymateb dros dro, ond maes o law byddai ymateb yn cael ei ddarparu iddo fo a'i breswylwyr a phreswylwyr eraill mewn wardiau eraill yn dweud beth roedd y Cyngor yn bwriadu ei wneud o ganlyniad i'r cwynion hynny.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi'r cwestiynau a'r ymatebion ysgrifenedig a llafar.

## 61 CWESTIYNAU GAN YR AELODAU YNGLŶN Â CHOFNODION Y PWYLLGOR

Dywedodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) nad oedd dim wedi dod i law erbyn y dyddiad cau.

## 62. AELODAU O'R WASG YN BRESENNOL

Nid oedd unrhyw aelodau o'r wasg nac aelodau o'r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 pm a daeth i ben am 2.38 pm)

**…………….....**
**Y Cadeirydd**